**CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 19eg Ionawr 2022 gan gychwyn am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**92. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball a Miss S. L. Roberts.

**93. <u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**94. <u>RHYDDFREINIWR ANHRYDEDDUS Y RHYL</u>**

Ymhellach i gofnod rhif 87 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2921, cyfeiriodd y Maer at adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), ac roedd yn falch o adrodd bod Mrs Jean Frost MBE wedi derbyn teitl Rhyddfreiniwr Anrhyddedus y Rhyl a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r dyfarniad yn ffurfiol.

O roddi'r mater i'r bleidlais, pleidleisiodd 18 o'r 18 aelod a oedd yn bresennol o blaid y dyfarniad, gydag un yn ymatal oherwydd nad oedd wedi darllen manylion yr enwebiad ac un wedi methu'r bleidlais oherwydd iddynt ymuno gyda'r cyfarfod yn hwyr.

Ar ôl bodloni'r rheol bod dwy ran o dair o'r aelodau a oedd yn bresennol yn cefnogi'r enwebiad, ***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *bod y dyfarniad i Mrs frost yn cael ei gymeradwyo'r ffurfiol a bod y maer yn cyhoeddi'r dyfarniad yng nghyfarfod y cyngor yn union ar ôl y cyfarfod hwn.*

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ddiddordeb personol yn yr eitem uchod gan fod wyres Mrs Frost yn ferch bedydd iddi, ond cymerodd ran yn y bleidlais, fel y caniateir]**

**95. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: …………………